# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2023 (ar Zoom)

**Yn bresennol:** Mark Isherwood MS (Cadeirydd), Megan Thomas (Ysgrifennydd), Rebecca Phillips (Cofnodion), Y Cynghorydd Teresa Carberry, Marg McNiel, William Fawcett, Tracey Blockwell, Trevor Palmer, Jan Thomas, Andrea Gordon, Shaun Bendle, Kerry Bevan, Branwen Jones, Owen Williams, Lesley Clarke, Lee Parsons, Matt Innes, Gareth Marshall, Sarah Hughes, Bethany Handley, Shahd Zorob, Cath Lewis, Morvenna Richards, Becky Ricketts, Ian Bellin, George Lockett, Miranda Evans, Kirsty Rees, Kelly Stuart, Liz Williams, Zoe Richards, Leandra Craine, Kat Watkins, Sioned Williams, Cari Jones, Amanda Say, Rhian Davies.

**Ymddiheuriadau:** Louise Sweeney, Joanna Fashan, Jenny Carroll.

### 1. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

**Cynigiwyd gan**: Marg McNeil
**Eiliwyd gan**: Trevor Palmer

### 2. MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL

**Seeing Around Britain**

Gofynnodd Marg am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y llythyr a anfonwyd at swyddfa'r Tywysog William.

Dywedodd y Cadeirydd fod ymateb dros dro wedi'i anfon at y grŵp gan swyddfa'r Tywysog, yn nodi bod pethau'n brysur ond y byddai'n bwrw ymlaen â'r mater dan sylw. Mae swyddfa MI wedi gofyn i swyddfa'r Tywysog am ddiweddariad pellach.

Dros yr haf, roedd MI hefyd wedi anfon manylion ynghylch *See Around Britain* at Archesgob Cymru, ond nid oes ymateb wedi dod i law eto. Bydd MI yn mynd ar drywydd hyn hefyd.

Gofynnodd Marg i Megan am ddiweddariad ynghylch gwaith Grŵp Seneddol Hollbleidiol San Steffan ar Anabledd a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol mewn perthynas â mentrau gwirfoddoli yng Nghymru.

Nid yw Megan wedi cysylltu â Grŵp Seneddol Hollbleidiol San Steffan ar Anabledd ond bydd yn gwneud hynny. Gan weithredu ar y cyd â chydweithwyr yn Anabledd Cymru sy'n gysylltiedig â'r prosiect, bydd yn cysylltu eto â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Ychwanegodd Marg fod gwybodaeth am yr holl fannau cynnes, banciau bwyd a chanolfannau Cyngor ar Bopeth ar gael ar y wefan.

**3. DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD**

Ers y cyfarfod diwethaf, mae MI wedi cynnal ei ddadl ar y Bil y mae'n ei gynnig mewn perthynas ag Iaith Arwyddion Prydain. Cafodd gefnogaeth gan Aelodau o bob plaid, gyda'r Llywodraeth yn ymatal. Bydd MI yn parhau i geisio cyflwyno'r Bil.

Mae wedi codi sawl mater ar ran grwpiau ac elusennau pobl anabl yn y Siambr a thu hwnt.

**4. DIWEDDARIAD GAN YR YSGRIFENNYDD**

Cynigiodd Megan fod pob cyfarfod y grŵp trawsbleidiol yn y dyfodol yn cael ei gynnal ar ffurf hybrid. Fe'i cytunwyd gan bawb.

**5. CYFLWYNIAD GAN YR ADRAN GWAITH A PHENSIYNAU** (Lesley Clarke, Rheolwr Eiriolaeth ar gyfer Gwasanaethau Anabledd yng Nghymru a De Lloegr; Matthew Innes, Rheolwr Eiriolaeth ar gyfer Gwasanaethau Anabledd yng Nghanolbarth Lloegr)

Rhoddodd Lesley drosolwg o waith y Tîm Eiriolaeth ar gyfer Gwasanaethau Anabledd. Cafodd y gwasanaeth ei sefydlu yn 2019, yn bennaf i godi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid ynghylch holl gynhyrchion y Gwasanaethau Anabledd.

Nod cyffredinol y gwasanaeth yw cefnogi dyhead y Llywodraeth i gynorthwyo pobl anabl i gael a chadw swyddi.

Darperir gwasanaethau drwy bedwar prif grant anabledd: y cynllun Mynediad i Waith, y Lwfans Byw i'r Anabl, y Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, a’r Taliad Annibyniaeth Bersonol.

**Y Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP)**

Mae’r Taliad Annibyniaeth Bersonol yn fudd-dal di-dreth a all helpu gyda rhai o’r costau ychwanegol os oes gennych salwch hirdymor neu anabledd. Mae'n cynnwys dwy gydran, sef bywyd bob dydd a symudedd.

Mae’r gwasanaeth a ddarperir gan Swyddogion Ymweld bellach yn cael ei gynnig unwaith eto yn dilyn y pandemig. Gall cwsmeriaid nad ydynt yn gallu cael mynediad i’r Adran Gwaith a Phensiynau drwy unrhyw ddull arall gael mynediad at y gwasanaeth hwn.

Lle bo’n briodol, gwahoddir cwsmeriaid i gyflwyno hawliad newydd ar gyfer y Taliad Annibyniaeth Bersonol yn electronig, a hynny drwy’r broses e-PIP2, gyda’r nod o symud i broses ymgeisio ar-lein yn unig yn y dyfodol.

Mae'r mathau o asesiadau'n cynnwys y canlynol: Adolygiad ar Bapur, Asesiad Ffôn, Asesiad Wyneb yn Wyneb, ac Asesiad Fideo. Gall cwsmeriaid bellach wneud cais am ddull arall o asesu i'r dull a ddynodwyd ar eu cyfer, a hynny heb fod angen tystiolaeth arnynt.

Cynhelir yr asesiadau gan weithwyr proffesiynol cymwysedig ym maes iechyd sydd ag o leiaf 2 flynedd o brofiad ac sydd wedi dod i gysylltiad ag ystod eang o gyflyrau meddygol.

**Gwneud Penderfyniadau**

Ar gyfer rhywun sy'n gwneud cais newydd, yr amser cyfartalog rhwng y cais a’r penderfyniad yw 22 wythnos.

Mae hawliadau newydd bellach yn cael eu blaenoriaethu dros y broses o adolygu dyfarniadau ac achosion o amgylchiadau yn

newid.

Yn dilyn cyfnod o oedi, mae'r broses o adolygu dyfarniadau ac achosion o amgylchiadau yn newid wedi dechrau. Hefyd, er mwyn sicrhau nad yw pobl yn methu allan ar daliadau, mae dyfarniadau wedi cael eu hymestyn.

**Proses orfodol o ailystyried penderfyniadau**

Gall cwsmer ofyn am broses orfodol o ailystyried penderfyniad os yw'n anghytuno â'r penderfyniad hwnnw. Awgrymodd Matt y dylid gofyn am esboniad llafar ac am gopi o'r adroddiad asesu er mwyn ceisio deall sut y gwnaed y penderfyniad.

Mae adborth ar y gwasanaeth yn cael ei groesawu, ac mae'r adborth hwnnw'n cael ei drosglwyddo i'r adran berthnasol at ddibenion llunio a gwella gwasanaethau.

**Cwestiynau a sylwadau**

C. Pam mae rhai ymgeiswyr sydd wedi cael 0 pwynt yn unig yn cael y gyfradd uwch yn dilyn apêl?

A. Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac yn darparu asesiadau wedi'u rhwymo gan y Canllawiau Asesu ar gyfer y Taliad Annibyniaeth Bersonol, a rhaid iddynt wneud eu penderfyniadau ar sail y canllawiau hynny. Pan fydd achosion yn mynd i apêl, nid oes gofyn i'r barnwyr wneud hynny. Gallant wneud dyfarniad yn seiliedig ar yr hyn a gyflwynir iddynt ar y diwrnod hwnnw. Mae cwsmeriaid yn tueddu i ddod â mwy o dystiolaeth ar y diwrnod. Anogodd Lesley ymgeiswyr i sicrhau bod yr holl dystiolaeth yn cael ei darparu yn ystod y cam gorfodol o ailystyried penderfyniad.

C. A fyddai modd egluro'r llinell ar oedran pensiwn y wladwriaeth a'r cyfnod adolygu o ddeng mlynedd?

A. Os bydd dyddiad adolygu cwsmer yn digwydd pan fydd y cwsmer dros oedran pensiwn y wladwriaeth, bydd y dyddiad adolygu yn cael ei ymestyn yn awtomatig i gyfnod adolygu o ddeng mlynedd.

Yn sgil cyfyngiadau amser, gwnaeth MI awgrymu y dylid anfon y cwestiynau a nodwyd yn y blwch sgwrsio at Lesley a Matt i'w hateb yn ddiweddarach.

Yn ogystal â gwahodd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ôl i siarad

am y cynllun Mynediad i Waith, awgrymodd MI y dylid gwahodd Capita i un o gyfarfodydd y grŵp.

Awgrymodd MI y dylid gofyn i'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol am y gwaith y mae wedi'i wneud ar y mater hwn. Yn ogystal, awgrymodd MI y dylid gofyn i'r Alban sut mae'r broses asesu'n gweithio yno ers iddi gael ei hailgynllunio.

**6. CYFLWYNIAD – GWASANAETHAU SEFYDLU AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC Â NAM AR EU GOLWG**

Andrea Gordon, Rheolwr Materion Allanol (Cŵn Tywys Cymru); Cath Lewis, Rheolwr Polisi ac Ymgyrchoedd (Cŵn Tywys Cymru); Sarah Hughes, Pennaeth Gwasanaethau Nam ar y Golwg (SENCOM) a Chadeirydd Cymdeithas Addysgwyr Nam ar y Golwg Cymru; a Branwen Jones, Rheolwr Gweithrediadau Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (Cŵn Tywys Cymru).

**Gwasanaethau Sefydlu ar gyfer Plant â Nam ar eu Golwg**

Mae Branwen yn arbenigwr sefydlu sydd â dros 30 mlynedd o brofiad yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi colli eu golwg.

**Beth yw sefydlu?**

Mae tua 80 y cant o ddysgu plant yn cael ei wneud drwy eu golwg. Gall swyddog sefydlu cymwys ddarparu cymorth i rieni/gofalwyr, a hynny o’r diagnosis cynnar. Sefydlu yw’r broses o ddarparu hyfforddiant i blant a phobl ifanc sy'n briodol i'w hoedran, a hynny er mwyn eu hannog i ddatblygu sgiliau annibynnol. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi plant a phobl ifanc o’u genedigaeth hyd at 25 oed.

Lle bo'n briodol, bydd sgiliau perthnasol yn cael eu haddysgu, megis symudedd a chyfeiriadedd, sut i ddefnyddio cymhorthion symudedd a thrafnidiaeth gyhoeddus, sut i drin arian, ac ymyrraeth gymdeithasol.

Rhannodd Branwen stori Nell gyda'r grŵp. Mae Nell wedi cael cymorth gan gŵn tywys ers yr adeg pan oedd yn fabi. Mae hi wedi serennu mewn hysbyseb deledu i hyrwyddo’r gwasanaeth

cŵn tywys i blant. Yn saith oed, mae hi hefyd wedi cael ei chastio mewn cyfres wreiddiol ar Netflix, sydd i'w darlledu yn nhymor y gwanwyn 2023.

**Sut mae'r broses sefydlu yn gweithio drwy addysg**

Siaradodd Sarah am y Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar eu Golwg (CFVI). Mae'r fframwaith wedi'i ddatblygu ledled pedair gwlad y DU. Y gobaith yw y bydd yn cael ei fabwysiadu gan wasanaethau ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg ledled y DU, a bod y Llywodraeth berthnasol yn cydnabod y ffaith bod yna rai sgiliau y mae angen i bobl ifanc eu datblygu er mwyn bod yn barod ar gyfer gwaith a bywyd oedolyn, a bod angen iddynt gael cefnogaeth gan y gweithwyr proffesiynol cywir ar yr adeg gywir.

Mae'r fframwaith yn diffinio 11 maes dysgu: **1.** Hwyluso Byd Cynhwysol, **2**. Datblygiad Synhwyraidd, **3.** Cyfathrebu, **4.** Llythrennedd, **5**. Cymhwysedd (Cyfeiriadedd a Symudedd) **6**. Cymhwysedd (Sgiliau Byw yn Annibynnol), **7.** Sicrhau gwybodaeth, **8.** Technoleg, **9.** Iechyd (Lles Cymdeithasol, Emosiynol, Meddyliol a Chorfforol), **10**. Cymdeithasol, Chwaraeon a Hamdden, **11**. Paratoi ar gyfer bod yn oedolyn.

Bydd y fframwaith yn helpu pobl i ddeall y cymorth a ddarperir i blant a phobl ifanc â nam ar eu golwg a'u teuluoedd. Bydd hefyd yn egluro rolau a chyfrifoldebau, ac yn nodi targedau a chanlyniadau.

Gellir rhannu copi o'r cyflwyniad â'r rhai sydd â diddordeb yn dilyn y cyfarfod.

**Y cysylltiad rhwng y fframwaith, y broses sefydlu a deddfwriaeth yng Nghymru.**

Tynnodd Cath sylw at y cysylltiad rhwng y fframwaith, y broses sefydlu a deddfwriaeth yng Nghymru.

- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

- Y Cwricwlwm i Gymru
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl: Erthygl 26 – Sefydlu ac Adsefydlu
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Erthygl 23 – Plant ag anabledd/plant anabl

**Y sefyllfa bresennol yng Nghymru**

- Loteri cod post
- Mae enghreifftiau o arfer da – y Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd a Chyfathrebu – yn cwmpasu pum awdurdod lleol yn ne ddwyrain Cymru
- Dim darpariaeth awdurdod lleol ym Merthyr Tydfil na Sir Benfro

**Pwysigrwydd sefydlu**

- Model cymdeithasol o anabledd a chymryd rhan mewn cymdeithas
- Hawliau, llais, dewis a rheolaeth
- Effaith ar ragolygon cyflogaeth – dim ond un o bob pedwar unigolyn o oedran gweithio â nam ar eu golwg sy'n cael ei gyflogi.

Dywedodd MI wrth y grŵp fod y cynnig a wnaed ddoe ("Hyfforddiant sefydlu ar gyfer plant â nam ar eu golwg") wedi'i wrthod a bod gwelliant y Llywodraeth i'r cynnig wedi'i wrthod hefyd.

Gwahoddodd MI Andrea a Cath i ysgrifennu at y grŵp trawsbleidiol parthed cymryd camau dilynol.

**CAMAU I'W CYMRYD:**

1. Seeing Around Britain:

- Llythyr dilynol at y Tywysog William

- Gofyn am ymateb gan Archesgob Cymru
- Cysylltu â Grŵp Seneddol Hollbleidiol San Steffan ar Anabledd
- Cydweithio ag Anabledd Cymru at ddibenion ymgysylltu â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol

2. Rhannu'r cwestiynau a godwyd yn ystod y cyflwyniad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gyda Lesley a Matt er mwyn cael ymatebion.

3. Gwahodd Capita i gyfarfod yn y dyfodol.

4. Canfod pa waith sydd wedi'i wneud ynghylch asesiadau ar gyfer y Taliad Annibyniaeth Bersonol gan y Grŵp Seneddol Hollbleidiol, a chanfod sut mae'r broses asesu wedi gweithio yn yr Alban ers i'r broses asesu gael ei hailgynllunio.